

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Eglwysbach

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae Ysgol Eglwysbach yn gymuned ddiogel, hapus a gofalgar ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn darparu awyrgylch gynhwysol, gynhaliol sy'n adlewyrchu arwyddair yr ysgol, 'Wrth gredu yn ein gilydd mae'r hud yn cychwyn.' Mae'r disgyblion yn frwdfrydig tuag at eu dysgu ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y modd y maent yn cydweithio'n hapus â'i gilydd. Maent yn gwrando'n astud ac yn mwynhau dysgu pethau newydd. Maent yn dyfalbarhau'n llwyddiannus er mwyn llwyddo gyda'u tasgau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cydweithio'n aeddfed gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu.



Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhai sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn gwneud cynnydd cadarn gyda'r iaith, gan fagu hyder yn fuan. Ar draws yr ysgol, yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r disgyblion yn ymroddgar ac yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn mwynhau amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu yn yr adeilad ac yn yr ardaloedd tu allan.



Mae'r ysgol wedi ymateb yn flaengar a chreadigol i ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae blaengaredd y 'p'nawniau prysur,'  yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion hŷn yr ysgol ddatblygu a chymhwyso'u medrau mewn modd annibynnol. Mae'r disgyblion yn y frwdfrydig iawn ac yn dyfalbarhau'n  arbennig o dda yn ystod y gweithgareddau hyn. Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei sefydlu'n gadarn yn eu cynefin yn Nyffryn Conwy. Mae'r disgyblion yn dysgu am chwedlau, hanes a diwylliant yr ardal, ac mae hyn yn cyfoethogi eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar gynnal gwelliant parhaus o fewn ethos cartrefol a gofalgar. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ac mae'n gosod amcanion strategol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau, a chynnal lles disgyblion. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn dîm ymroddgar ac maent yn cydweithio'n effeithiol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

# Argymhellion

A1 Cryfhau medrau darllen disgyblion

A2 Ehangu'r cyfleoedd i ddatblygu profiadau addysg gorfforol y disgyblion

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r prynhawniau prysur a grwpiau disgyblion sy'n canolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm i Gymru, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Eglwysbach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 67 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 51 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 10 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 8.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 62.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2015 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 20/01/2014 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.